# Taliadau i sefydliadau

*28/07/2012*

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Mehefin. Byddaf yn ateb pob rhan o'ch cais yn ei thro isod.

***Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2009-10, 2010-11 a 2011-12:***
***- Faint a dalwyd i gwmnïau preifat neu sefydliadau allanol (gan gynnwys unrhyw asiantaethau cyflogi neu weithwyr llawrydd)?***

| | 2011-12 | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Y cyfanswm a dalwyd gan y Comisiwn | 13,432 | 14,603 | 17,998 |

***- Pa dri sefydliad / corff allanol a gafodd y nifer fwyaf o daliadau gan eich sefydliad?***

Y tri sefydliad a gafodd y nifer fwyaf o daliadau gan y Comisiwn yn 2011-12 oedd:

- Llywodraeth Cymru, yn bennaf mewn perthynas â threfniadau cytundebol i ddarparu gwasanaethau TGCh drwy gyfrwng ei chytundeb ag Atos;
- Integral, sef y contractwr a benodwyd hyd fis Ebrill eleni i gynnal a chadw'r ystâd; ac
- Aprirose Ltd, sef y landlord ar gyfer Tŷ Hywel.

***- Faint o'ch anfonebau gan gwmnïau preifat neu sefydliadau allanol a dalwyd o fewn y cyfnod a nodwyd ar yr anfoneb wreiddiol?***
***- Faint a dalwyd o fewn 30 diwrnod?***
***- Faint a dalwyd o fewn 60 diwrnod?***
***- Faint a dalwyd o fewn 90 diwrnod?***

| | 2011/12 | 2010/11 | 2009/10 |
|---|---|---|---|
| Y ganran ohonynt a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith | 96.7% | 92% | 93% |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y ganran ohonynt a dalwyd o fewn 30 diwrnod gwaith | 99.94% | 99.50% | 99.39% |
| Y ganran ohonynt a dalwyd o fewn 60 diwrnod gwaith | 99.97% | 99.81% | 99.90% |
| Y ganran ohonynt a dalwyd o fewn 90 diwrnod gwaith | 100% | 100% | 100% |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**